**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**MEHEFIN 26AIN 2024 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YM MHANDY TUDUR**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Sara Thomas (ST), Euros Williams (EUW), & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Austin Roberts (AR), Gwydion Jones (GJ), Jane Roberts (JR)

**1.4** Absennol - Mark Davies (MD)

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION MAI 22AIN 2024 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan MGD ac eiliwyd gan EUW.

## 4 MATERION YN CODI

**4.1** Nododd AV fod y gwair wedi ei dorri yng Nglan Collen (eitem 8.1 ar gofnodion mis Mai) ond fod un o'r tybiau blodau wedi eu torri wrth wneud hyn. Gofynnwyd i CWG yrru neges i AR yn gofyn a wnaiff y Cyngor Sir dalu am y twb. Hefyd nododd fod angen i DR gysylltu gyda hi ynglŷn â thoiledau Betws yn Rhos (eitem 12 ar gofnodion mis Mai).

**4.2** Cwrs Cymorth Cyntaf – cafodd hwn ei gynnal yn ystod y mis ac roedd yn noson hynod fuddiol. Roedd Tomos Hughes yn wych am gyflwyno'r wybodaeth ac roedd pawb yn ddiolchgar iawn fod y noson wedi cymryd lle. Derbyniodd CWG e-bost gan aelod o'r cyhoedd yn diolch am y noson ac roedd eisiau gwybod pryd fydd y nesaf. Atebodd CWG y byddai'r cwrs yn cael ei gynnal yn flynyddol ac yn cael eu hysbysebu drwy'r dulliau arferol. Cynigodd Tomos ar y noson i gynnal cwrs cymorth cyntaf amaethyddol yn yr haf gan ei fod wedi cael grant. Cytunodd CWG ar ran y cyngor y buasen yn hoffi cynnal cwrs yn yr ardal ond byddai angen sied addas. Dywedodd y cynghorwyr y byddai sied Pen Fron, Gwytherin yn addas.

**4.3** Grant diffibrilydd - CWG wedi bod yn gweithio ar y polisïau sydd wedi eu pasio gan CR a gyda help y noson cymorth cyntaf yna mae popeth wedi ei gyflawni ar gyfer derbyn yr arian. Wedi derbyn ffurflen derbyn grant gan Esyllt ac wedi ei ddychwelyd iddi. Bydd angen defnyddio logo'r grant ar unrhyw ddeunydd marchnata ac ar focs y diffibrilydd os yn bosib ac yna bydd angen llenwi ffurflen ar ddiwedd y prosiect. Mae CWG mewn cysylltiad âg Ifan Rowlands o Gyngor Sir Conwy i drefnu lleoliad addas ar ei gyfer. CWG a CR i'w gyfarfod.

**4.4** Undeb Clerc – CWG wedi ymchwilio a chael gwybod am y SLCC a'r ALCC. Mae'r ALCC wedi dod yn ôl ati ac mae'n costio £50 y flwyddyn. CWG ddim yn awyddus i ymuno a'r cynghorwyr yn parchu ei dewis hi.

**4.5** Awdit – Parhau i aros i Iona ddod yn ôl o ran y diweddariad yn dilyn y wybodaeth am y croniadau hanesyddol. Mae Mel ab Owain o Un Llais Cymru wedi cadarnhau yn ystod y mis nad yw cynghorau bach angen poeni am wneud croniadau, dim ond os yw'r trosiant dros £100,000 mae angen gwneud hynny. Gofynnodd CR i CWG gael hyn wedi ei nodi yn ysgrifenedig gan Mel.
Mae angen cyflwyno'r holl wybodaeth ar gyfer yr awdit llawn erbyn dechrau mis Awst. Gofynnodd CWG am gael copi o'r rhestr claddu gan CR sydd yn rhan o'r awdit.
[DR yn cyrraedd]

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**
Dim wedi dod i law
**6 MATERION CYNGOR**
Dim

**7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

**7.1** Sgipiau - mi fuodd y swyddog trwyddedu i ffwrdd o'i waith am dair wythnos, ond pan gysylltodd fe ymddiheurodd bod yna gamddealltwriaeth wedi bod ac i'r clerc rhoi cais arall i mewn. CWG i ddweud wrth AR fod *Thorncliffe* wedi rhoi cais arall i mewn am drwydded a'i fod wedi ei basio rŵan. Bydd sgip yn dod i Bandy Tudur ar 1.7.24.

Mynegodd EW ei rhwystredigaeth y dilyn nifer o broblemau i wneud gyda'r sgip yng Ngwytherin. Ers i'r cyngor sir benderfynu peidio darparu'r gwasanaeth mae'r cyngor cymuned wedi gorfod eu cael gan gwmni preifat. Yn dilyn nifer o broblemau gyda hyn, unwaith roedd y sgip yno cafodd oergelloedd, rhewgelloedd a microdon eu tynnu o'r sgip gan y cwmni sgipiau *Thorncliffe* a'u gadael ar y llawr. Cafwyd pris o £330 gan gontractiwr preifat i'w clirio. Trafododd EW gydag AR a chafodd drwydded i fynd a nhw i'r safle ailgylchu yn Abergele. Er bod person ar y ffon yn y cyngor wedi dweud eu bod yn derbyn trelars mi wnaeth yna ddyn yn y safle ailgylchu wrthod cymryd trelar yno ac roedd ganddo agwedd ddigywilydd iawn. Derbyniodd rhai eitemau ond mae 3 dal ar ôl angen eu gwaredu. Dywedodd MGD fod angen adrodd yn ôl i'r cyngor pa effaith mae eu penderfyniadau maen nhw wedi ei wneud yn ei gael ar y cymunedau lleol. Penderfynwyd i CWG ysgrifennu llythyr i'r adran ailgylchu yn nodi'r holl broblemau a gafwyd.

**7.2** Glan Collen - gwair wedi ei dorri.

**7.3** Damwain ger allt Waterloo - cefais gyfarfod gydag uwch swyddog priffyrdd y sir ynglŷn â'r ddamwain angheuol. Fe ddywedodd bod y cyngor yn cynnal archwiliad o'r ffordd o Lanfair TH i Langernyw ac unwaith fydd hynny wedi ei gyflawni fe fyddant wedyn yn gwneud cais am grant gan Lywodraeth Cymru i wneud gwelliannau. Yn y cyfamser, maent wedi gofyn i'r heddlu i roi arwyddion beicio'n ddiogel ar y ffordd. Dywedodd AV ei bod wedi bod yn gofyn am yr arwyddion ers dros flwyddyn a dal ddim byd i fyny a'u bod wedi gwneud asesiad o'r ffordd y llynedd.

**7.4** Gwaith ar y ffordd rhwng Rhydeden a Chefngroes mawr - gobeithio cychwyn ar y gwaith un ai'r wythnos hon neu wythnos nesaf.

**7.5** Mi fydd yr A548 ar gau dros y penwythnos ger Ysgubor Newydd er mwyn rhoi cylfat i mewn.

**7.6** Tŷ Du – heb glywed dim yn ôl gan y Cyngor Sir eto.

Dywedodd AV fod angen torri oddi-amgylch arwyddion ffyrdd a'i bod wedi gyrru at AR ac maent yn bwriadu gwneud o fewn yr wythnos.

**8 MATERION ARIANNOL**
**8.1** £7.79 costau amlenni a stampiau CWG o fis Ebrill
**8.2** Ad-daliad codiad cyflog CWG yn ôl i fis Ebrill - 402.50 - 369.63 = £32.87
**8.3** Daeth hysbysiad yn dilyn y pwyllgor diwethaf fod yr yswiriant yn dod i ben a bod angen ei dalu cyn y pwyllgor yma. Gyrrodd CWG y manylion i bawb a chafodd 3 person yn cytuno (a neb yn anghytuno) gyda thalu'r yswiriant felly fe dalodd hwnnw yn ystod y mis ers mwyn parhau gyda'r polisi.

## 9 GOHEBIAETH

Wedi ei anfon ymlaen i DR er gwybodaeth:
**9.1** Lansio Adnoddau Bioamrywiaeth Newydd gan Un Llais Cymru

Wedi ei yrru i DR a CR:
**9.2** Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Sesiwn CDLlN - Cyfarfod Arbennig Fforwm Cyngor Tref a Chymuned - Mehefin 12fed 6-8

Wedi ei yrru i CR:
**9.3** Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Cynghorau Cymuned a Thref - Lwfansau Cynghorwyr

Wedi eu gyrru ymlaen i bawb er gwybodaeth:
**9.4** Ymgysylltu a Phartneriaeth Cynghorau Tref a Chymuned
**9.5** Hyfforddiant am ddim - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**9.6** Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru am y misoedd Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
**9.7** ULlC Ymateb i egwyddorion amgylcheddol targedau llywodraethu a bioamrywiaeth
**9.8** Prosiect Datblygu Dan Arweiniad y Gymuned - grant o hyd at £10,000 yn Sir Conwy.
DR yn gofyn a oedd yn bosib cael grant ar gyfer y stribed o wair wrth ymyl y cwrt tennis. Dywedodd MGD yn dilyn pwyllgor diweddar nad oes rheidrwydd fod yr ysgol ei angen ac mai adran arall o ran y cyngor fydd yn gyfrifol amdano. Trafodwyd os yw cyngor cymuned yn gymwys i wneud cais? Efallai y byddai'n bosib wedyn cynnal ymgynghoriad ar ran beth i'w wneud gyda'r darn o dir. Dywedodd EW os yw'r cyngor cymuned yn cael ymgeisio yna byddai'n gallu bod yn rhan o'r pwyllgor amgylchedd a chynllun bioamrywiaeth. Un syniad gan DR o ran beth i'w wneud gyda'r tir oedd rhoi cychod gwenyn ym mhen draw'r cae a noddodd EUW y dylid gofyn yn yr ysgol rhag ofn bod rhywun gydag alergedd.
**9.9** Gweminar: Arweiniad i Drafnidiaeth Gymunedol
**9.10** CDLL newydd Cyngor Conwy - pwerbwynt
**9.11** Gwobrau Cymru Daclus 2024

**9.12** Wedi derbyn llythyr gan Mrs Lynda Kettle, Bryn Coroniaid yn gofyn am ystyried prynu diffibrilydd arall ym mhentref Llangernyw. CWG wedi ymateb yn ôl drwy lythyr yn nodi fod y cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar wrth ymgeisio am grant ar gyfer hyn a bod yr arian yn mynd i gael ei ryddhau yn fuan.

## 10 BILIAU

**10.1** Ad-daliad i CWG am gost y sgip i Wytherin - £258 a sgip Pandy Tudur - £336, cyfanswm = £594
**10.2** Bil cyfieithu Enlli - £95
**10.3** Dei Evans i dorri gwair - £460
**10.4** DR - ad-daliad am flodau i Wytherin, Pandy Tudur a Llangernyw - £16.50 + £16.50, cyfanswm = £33

Pasiwyd i dalu'r uchod i gyd.

## 11 MATERION LLEOL

**ST** - wedi cael llawer o blanhigion am ddim gan Wynnstay Llanrwst ac wedi eu plannu ym Mhandy Tudur a Gwytherin. Pawb yn ddiolchgar iawn ac yn awyddus i CWG ysgrifennu llythyr i ddiolch. Mae llawer o wair o gwmpas y tybiau blodau ym Mhandy Tudur ac felly nid yw'n bosib gweld y potiau blodau. Pasiwyd i CWG ofyn i AR i'r cyngor sir dorri'r gwair.

**DR** – cafodd cwyn nad yw'r lle newydd ar gyfer claddu llwch ym mynwent Llangernyw yn hawdd mynd ato. Atebodd CR mai dyma'r unig le sydd yn gallu ei gynnal gan nad oes sicrwydd fod y pridd am aros yn ei le wrth dyllu. Bydd DR yn adrodd hyn yn ôl. Dywedodd fod llechi a thamaid o fetel yn rhydd yn yr hen siop fach yn Llangernyw. Penderfynwyd i CWG ysgrifennu at Mrs Mackeson-Sandbach yn mynegi pryderon a'i fod yn fater iechyd a diogelwch a bod aelodau o'r gymuned wedi ei godi gyda'r cyngor cymuned. Penderfynwyd i yrru lluniau yn y llythyr hefyd. Bydd angen i CWG edrych ar y gofrestr tir yn gyntaf i wneud yn siŵr pwy sydd yn berchen arno a gyrru'r llythyr yn 'ddosbarthiad wedi ei gofnodi'. Dywedodd fod drain ar y llwybr ar draws y ffordd i Barc Aelas yn tyfu allan dipyn a bod pobl yn gorfod camu i'r ffordd i fynd o'i gwmpas. Dywedodd CR mai'r cyngor sy'n gyfrifol am 1m gwaelod y clawdd a'r ffermwr am y rhan uchaf. Gofynnodd MGD os yw'r cyngor yn dod o gwmpas i dorri o gwmpas yr arwyddion ffordd yr wythnos nesaf yna tybed ydi'n bosib iddynt dorri'r clawdd yma'r un pryd gan ei fod yn fater o iechyd a diogelwch? Os nad ydynt yn cytuno i wneud hyn yna dylid gofyn i Kevin Roberts i roi pris am ei dorri. CWG i rannu'r pris gyda phawb a bwrw ymlaen gyda'r gwaith. CWG i siarad gyda Helen Wanklyn i egluro beth sydd yn digwydd.

**AV** – wedi cael cwyn nad yw'r gwair yn cael ei hel o gwmpas y beddi. Atebodd CR fod hyn wedi codi o'r blaen ac mae'r pris yn dyblu os yw hyn i ddigwydd. Dywedodd EUW efallai ei fod y syniad rhoi arwydd i fyny yn dweud i gymryd gofal. Hefyd, cafodd gwyn fod y tamaid gwair yng ngwaelod y fynwent sydd wedi ei adael i natur yn edrych yn flêr. Nododd fod angen torri gwair yn yr ardd gerrig a phenderfynwyd i ofyn i Dei wneud, bydd AV yn gwneud hyn. Hefyd, nododd fod y posteri dim baw ci ar y clawdd ar draws y ffordd i Barc Aelas wedi mynd. Penderfynwyd i CWG ofyn i AR am rai newydd.

**12 CYFARFOD NESAF**
Gorffennaf 17eg 2024 yn Llangernyw.
Cyfarfod yn dod i ben am 20:55 .
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.